


Atodiad A – Proffilau Lle

BYNEA



Bynea yw un o'r wardiau mwyaf yn yr ardal Wledig gyda phoblogaeth o 4,384. Mae wedi gweld cynnydd sylweddol yn y boblogaeth a datblygiad tai yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac y mae yna ganfyddiad fod isadeiledd ffisegol wedi ymdrechu i ymdopi â'r cynnydd. Mae'r ardal wedi'i lleoli'n agos at yr arfordir ac yn ymestyn hyd at 2km i'r mewndir ac mae'n cynnwys pedwar cymuned benodol gyda mwy o ddatblygiadau tai hunangynhaliol newydd. Mae sefydlu'r syniad o gydlynid cymunedol yn profi'n anodd ac nid yw'n cael ei helpu gan absenoldeb amwynderau lleol lle gall pobol gwrdd. Mae yna ysgol gynradd dda a neuadd gymunedol a ddefnyddir yn helaeth gan grwpiau lleol. Fel sy'n nodweddiadol o nifer o wardiau ardal Wledig, mae Bynea yn gartref i rai o gyflogwyr mwyaf Llanelli ac yn cynnwys nifer sylweddol o safleoedd 'tir llwyd' bach a mawr. Mae data ac ymgynghoriadau wedi codi'r pryderon ynglŷn â pherygl llifogydd a diffyg ansawdd manau gwyrdd. Mae yna gynigion lleol uchelgeisiol i ddatblygu gwarchodfa natur a Felodrom.

Materion

- Perygl Llifogydd
- Capasiti carthffosiaeth a gorlifo cyfnodol
- Lleoliad ac effaith datblygiad tai newydd a phwysau parhaol am yr un fath eto
- Mynediad ffordd i dai newydd/diogelwch
- Beth yw'r cynllun ar gyfer Bynea?
- Diffyg ansawdd amgylchedd lleol e.e. mewn cymhariaeth â Casllwchwr
- Parseli o dir hanner diffaith- gwerthiant y cyngor am dderbyn
- Datblygiad wedi torri mynediad i'r traeth i'r gymuned
- Fforwm Bynea yn effro i wrthwynebu'r datblygiad newydd

Syniadau

Blaenoriaeth 1 – Datblygiad man gwyrdd yn Gwndwn Mawr

Blaenoriaeth 2 – Siop Gymunedol- o bosibl gyferbyn â'r maes parcio ym Mharc y Mileniwm

Blaenoriaeth 3 – **Cyfartal** – Cyfleusterau leuenctid awyr agored a digwyddiadau cymunedol

- Teithiau Cerdded Natur
- Felodrom
- Gwell cyfathrebu parthed cynllunio
- Tawelu traffig, adolygiad croesfan a gorfodaeth gor-yrru
- Cynnal a chadw llwybrau troed
- Cysylltu manau diweithdra a chyflogaeth newydd e.e. Y Giat.
- Cynllun Bynea
- Gorsaf Bwmpio well